



Office of the
Public Guardian

SD4



Sut i fod yn ddirprwy

Penderfyniadau llesiant personol

Cynnwys

Dechrau arni	3
Beth mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ei wneud?	4
Eich camau cyntaf fel dirprwy	6
Eich rôl fel dirprwy	15
Penderfyniadau cyffredin fel dirprwy	19
Sut wyf yn cael fy ngoruchwyllo fel dirprwy?	30
Newid eich dirprwyaeth	32
Pryd mae dirprwyaeth yn dod i ben?	33
Rhestr wirio dirprwy	34
Deall y Jargon	35

Nid oes rhaid i chi ddarllen y canllaw hwn i gyd ar unwaith. Mae at ddiben cyfeirio ac mae wedi'i rannu'n adrannau er mwyn helpu gyda gwahanol feysydd o'ch dirprwyaeth

Dechrau arni

Mae'r canllaw hwn ar gyfer dirprwyon sydd wedi'u penodi gan Y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau llesiant personol ar ran pobl heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau o'r fath eu hunain.

Mae bod yn ddirprwy yn gyfrifoldeb pwysig. Mae'r gorchymyn llys a anfonwyd atoch gan Y Llys Gwarchod yn dweud pwy rydych wedi'ch awdurdodi i wneud penderfyniadau ar eu cyfer ac ym mha feysydd penodol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ac yn deall y gorchymyn llys yn llwyr. Os bydd unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall, cysylltwch â'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG).

Os yw hyn i gyd yn newydd i chi ac yn teimlo ychydig yn frawychus, peidiwch â phoeni, nid ydych ar eich pen eich hun. Os oes angen help arnoch i wneud penderfyniad, trafodwch hyn gydag aelod o'r teulu neu weithiwr gofal yr unigolyn rydych yn gwneud penderfyniad ar eu cyfer.

Yn y canllaw hwn rydym yn defnyddio storïau dirprwyon eraill i ddangos rhai o'r pethau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau. Nid atebion terfynol yw'r rhain ond gallent eich helpu i weithredu pan fydd angen i chi wneud penderfyniadau tebyg.

Mae adran A-Y deall y jargon ar ddiwedd y llyfryn hwn yn esbonio'r termau nad ydych yn eu deall o bosibl.

Drwy'r canllaw cyfan hwn, rydym yn cyfeirio at 'y person' yr ydych yn gwneud penderfyniadau llesiant personol ar eu cyfer. Mewn manau eraill fe welwch hwy'n cael eu galw – yn fwy swyddogol – yn 'P', sef y term a ddefnyddir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005

Beth mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ei wneud?

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn rhan o'r llywodraeth sy'n eich goruchwyllo yn eich rôl fel dirprwy ac sy'n gwneud yn siŵr eich bod yn gweithredu er lles pennaf y person.

Byddwch yn cael dau gyfnod cynnar o gysylltiad gyda'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus:

1. Llythyr y byddwn yn ei anfon atoch ar ôl i chi gael eich penodi yn ddirprwy, yn awgrymu amser ar gyfer ein galwad 'ymgartrefu' cyflwyniadol ynglŷn â rôl y dirprwy.
2. Yr alwad ymgartrefu ei hun, sy'n para hyd at awr, pan fydd eich rheolwr achosion yn trafod pethau fel:
 - telerau eich gorchymyn llys
 - anghenion iechyd a gofal y person
 - sut i wneud penderfyniadau fel dirprwy

Mae gan y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus lawer o wybodaeth ddefnyddiol am fod yn ddirprwy ond ni all roi cyngor meddygol neu gyfreithiol – ar gyfer hynny, bydd angen i chi siarad gyda gweithiwr meddygol proffesiynol priodol neu gyfreithiwr.

Office of the Public Guardian
Supervision

PO Box 16185

Birmingham B2 2WH

Ffôn: 0300 456 0300

Relay UK (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn): 18001
0300 123 1300

Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639 Orlau

gweithredol y llinell ffôn: dydd Llun i ddydd Gwener,
9am i 5pm (Dydd Mercher- 10am i 5pm)

E-bost: healthandwelfaresupervision@publicguardian.gov.uk

Eich camau cyntaf fel dirprwy

- ① Dod i adnabod y person (os oes angen)
- ② Trefnu eich bond diogelwch
- ③ Derbyn a gwirio eich gorchymyn llys
- ④ Darllen a deall safonau'r dirprwy
- ⑤ Rhoi gwybod i bobl eich bod yn ddirprwy
- ⑥ Sicrhau asedau'r person ac agor cyfrif ar wahân
- ⑦ Talu ffioedd dirprwy
- ⑧ Cofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein a dechrau ei ddefnyddio
- ⑨ Cyflwyno eich adroddiad dirprwy ar-lein

Eich camau cyntaf fel dirprwy

① Dod i adnabod y person rydych yn gwneud penderfyniadau ar eu cyfer

Os nad oeddech eisoes yn adnabod y person rydych yn gweithredu ar eu rhan fel dirprwy llesiant personol, dylech ddechrau dod i'w hadnabod yn awr. Y brif reol wrth wneud penderfyniadau llesiant personol ar gyfer y person yw bod yn rhaid i'r penderfyniadau hynny fod er eu lles pennaf bob amser.

Os oedd gan y person alluedd meddyliol ar un adeg ond nad oes ganddynt yn awr, meddyliwch am y mathau o benderfyniadau yr oeddynt yn arfer eu gwneud – am y bwyd a'r dillad yr oeddynt yn eu hoffi, am yr amgylchoedd yn eu cartref neu am weithgareddau hamdden neu gymdeithasol, er enghraifft.

Os oes gan y person alluedd meddyliol weithiau ac weithiau nid oes ganddynt ('galluedd sy'n amrywio'), gwnewch nodyn o'r mathau o benderfyniadau maent yn eu gwneud pan fydd ganddynt alluedd meddyliol.

Gofynnwch i bobl eraill, er enghraifft ffrindiau agos neu berthnasau, ynglŷn â hoffterau a chas bethau'r person, eu dymuniadau a'u credoau a'u penderfyniadau yn y gorffennol os oes ganddynt alluedd meddyliol. Defnyddiwch yr holl ffynonellau gwybodaeth hyn i lywio eich penderfyniadau fel dirprwy'r person.

② Derbyn a gwirio eich gorchymyn llys

Mae gorchmynion llys yn wahanol ar gyfer pob dirprwyaeth. Pan fydd Y Llys Gwarchod yn anfon eich gorchymyn atoch, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall yr union fathau o benderfyniadau y mae'n dweud y gallwch eu gwneud ar gyfer y person.

Y mathau cyffredin o benderfyniadau y mae gorchmynion iechyd a llesiant personol yn eu cwmpasu yw:

- lle mae'r person yn byw a gyda phwy maent yn byw
- eu gofal o ddydd i ddydd, gan gynnwys eu deiet a'u dillad

- cydsynio i driniaeth feddygol a deintyddol ar gyfer y person
- trefniadau gofal y person
- gweithgareddau hamdden neu gymdeithasol y dylent gymryd rhan ynddynt
- cwynion ynghylch gofal neu driniaeth y person

Darllenwch drwy'r gorchymyn llys yn ofalus i wirio am wallau fel enwau wedi'u sillafu'n anghywir. Os bydd unrhyw rai, cysylltwch â'r Llys Gwarchod ar unwaith er mwyn eu cywiro.

Ar gyfer gwallau mwy difrifol, bydd angen i chi lenwi ac anfon ffurflen COP9 (sydd ar gael yn www.gov.uk/dod-ddirprwy/pan-gewch-eich-penodi). Dylech ei hanfon i'r llys o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad yr anfonwyd y gorchymyn atoch.

Os na fyddwch wedi hysbysu'r llys ynghylch unrhyw wallau o fewn 21 diwrnod, efallai y bydd angen i chi dalu am gais arall i unioni'r broblem.

Byddwch ond yn gallu gwneud penderfyniadau ar gyfer y person yn y meysydd sydd wedi'u hawdurdodi gan Y Llys Gwarchod. Os ydych eisiau gwneud penderfyniadau eraill, mae angen i chi wneud cais i'r llys i newid eich gorchymyn dirprwy.

Y Llys Gwarchod

Ffôn: 0300 456 4600

E-bost: courtprotectionenquiries@hmcts.gov.uk

Dydd Llun i ddydd Gwener 9am i 5pm

③ Darllen a Deall y Safonau Dirprwy

Mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cyhoeddi safonau sy'n esbonio'r camau gweithredu y disgwylir i bob dirprwy eu cwblhau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Disgwylir i chi gyflawni'r safonau ar gyfer dirprwyon lle ydych chi [Safonau Dirprwy](#).

Mae yna ddogfen ganllaw gyhoeddedig hefyd sy'n rhoi rhagor o fanylion i chi ar sut i gyflawni'r safonau ac mae'n rhestru'r camau gweithredu y mae'n rhaid i chi eu cymryd ar ôl i chi dderbyn eich gorchymyn dirprwy www.gov.uk/government/publications/opg-deputy-standards-guidance-for-lay-deputies

④ Rhowch wybod i bobl eich bod yn ddirprwy

Mae angen i chi roi gwybod i bobl a sefydliadau penodol sy'n gysylltiedig â'r person eich bod yn ddirprwy. Gelwir hyn yn 'gofrestru'r ddirprwyaeth.

Rhai o'r enghreifftiau o'r bobl i'w hysbysu yw:

- gweithwyr iechyd proffesiynol, er enghraifft meddygon a nyrsys
- gweithwyr cymdeithasol
- darparwyr gofal
- darparwyr addysg

Os oes angen i chi anfon eich gorchymyn dirprwy i rywle wrth gofrestru eich dirprwyaeth, gofynnwch iddynt ei ddychwelyd neu efallai y byddwch yn brin o gopïau. Gallwch gael mwy o gopïau, sy'n costio £5 yr un, gan Y Llys Gwarchod.

⑤ Cyfrannu at gynllun gofal y person (os oes ganddynt un)

Mae cynllun gofal yn gytundeb rhwng y person – wedi'u helpu gennych chi – a gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol, sy'n amlinellu anghenion y person a'r cymorth a'r gofal y dylent ei gael. Mae gan y rhan fwyaf o bobl â dirprwyaeth llesiant personol gynllun gofal, ond nid pob un. Gall cynlluniau gofal fod yn fyr neu'n fanwl iawn, yn dibynnu ar amgylchiadau'r person.

Dylech chi a'r person fod yn rhan o'r broses o ysgrifennu'r cynllun. Os nad oes gan y person alluedd meddyliol i gytuno ar gynllun gofal, bydd angen i chi ei lofnodi ar eu rhan.

Fel dirprwy, gallwch:

- trafod y cynllun ac awgrymu unrhyw newidiadau
- gofyn i'ch sylwadau, yn seiliedig ar eich gwybodaeth am y person, gael eu cynnwys yn y cynllun gofal
- gofyn am gopi o'r cynllun gofal – gallai eich helpu i wneud penderfyniadau ar gyfer y person

Ond ni ddylech:

- newid y cynllun gofal – nid oes gennych yr awdurdod
- gofyn dro ar ôl tro i staff am gopiâu o ddogfen fel taflenni cofnodion dyddiol, logiau ac asesiadau risg – gwnewch yn siŵr fod eich gofynion yn rhesymol a rhowch amser i staff ymateb.

Os oes gennych bryderon ynglŷn â'r cynllun gofal, trafodwch y rhain gyda rheolwr cartref gofal, gweithiwr cymdeithasol neu feddyg.

Enghraifft: Gweithio gyda chynllun gofal *

Mae Margaret yn fenyw ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol. Ei mam, Sheila, yw ei dirprwy ac mae'n ei helpu i wneud llawer o'r penderfyniadau llesiant personol na all Margaret eu gwneud ei hun.

Mae tîm o feddygon, staff gofal a gweithwyr cymdeithasol wedi paratoi cynllun gofal i helpu gofalwyr Margaret i weithredu er ei lles pennaf.

Mae'r cynllun gofal yn cynnwys:

- y feddyginiaeth sydd wedi'i rhagnodi i Margaret
- help gyda'i gofal personol
- gweithgareddau eraill, gan gynnwys therapi celf

Mae'r tîm wedi gwneud eu gorau i gynnwys Margaret wrth gynllunio ei gofal ond mae ei meddyg wedi ei hasesu ac wedi datgan nad oes ganddi alluedd i gytuno ar lawer o agweddau o'i chynllun gofal. Fel ei dirprwy, gall ei mam gytuno neu anghytuno ar y rhannau hynny o'r cynllun na all Margaret.

* Mae'r enghreifftiau yn y canllaw hwn yn defnyddio cymeriadau dychmygol i'ch helpu i wneud penderfyniadau fel dirprwy

⑥ Cadw cofnod o'ch penderfyniadau ar gyfer y person

Mae'n rhan o'ch dyletswydd fel dirprwy i gadw cofnod o'r penderfyniadau llesiant personol a wnewch ar ran y person. Mae angen i chi gynnwys y cofnodion hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich adroddiad dirprwy.

Dechreuwch gadw cofnod ysgrifenedig cyn gynted â phosibl o benderfyniadau a wnewch am ofal y person.

Gallai penderfyniadau gynnwys:

- symud y person i gartref gofal i fyw
- newid i ddeiet y person, a drafodwyd gyda staff cartref gofal
- cydsynio i driniaeth feddygol ar gyfer y person, er enghraifft sgan neu lawdriniaeth
- cytuno ar weithgarwch hamdden newydd – er enghraifft teithiau cerdded gwledig neu noson ddawns

Os ydych wedi ymgynghori â phobl eraill am y penderfyniad llesiant personol, gwnewch nodyn o hynny hefyd.

Nid oes angen i chi gofnodi pob penderfyniad a wnewch o ddydd i ddydd, er enghraifft y prydau bwyd rydych wedi'u paratoi ar gyfer y person ar ddiwrnod penodol neu bob trip y byddwch yn eu dewis ar gyfer y person. Os ydych yn ansicr ynglŷn â chofnodi penderfyniad, dylech ei gynnwys rhag ofn.

⑦ Talu unrhyw ffioedd dirprwy

Rydych yn talu ffioedd y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus am oruchwylio eich dirprwyaeth o arian y person, nid eich arian chi. Mae'r ffioedd yn cynnwys:

- ffi asesu dirprwy untro o £100
- ffi oruchwylio flynyddol o £320

Os oes gan y person incwm isel, gallwch wneud cais am 'esemptiad' (peidio talu ffi) neu 'gostyngiad' (talu ffi is) o'r ffioedd asesu a goruchwylio.

Ffi asesu

Mae'r ffi untro hon ar gyfer asesu amgylchiadau pob dirprwyaeth. Mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn i chi dalu'r ffi yn gynnar yn eich dirprwyaeth. Gallwch hawlio'r ffi yn ôl o arian y person os ydych chi wedi ei thalu eich hun.

Ffi goruchwyllo

Mae yna ffi flynyddol hefyd i dalu am y gost o oruchwyllo eich dirprwyaeth.

Mae angen talu'r ffioedd goruchwyllo yn agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol, ym mis Ebrill. Yn eich blwyddyn gyntaf, byddwch ond yn gorfod talu am y gyfran o'r flwyddyn yr ydych wedi bod yn ddirprwy.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am esemptiadau a gostyngiadau ffioedd, ynghyd â ffurflen gais i dalu llai yn www.gov.uk/government/publications/deputy-fees-remission-or-exemption

⑧ Cwblhau eich adroddiad dirprwy

Fel y nodir yn eich gorchymyn llys, mae angen i ddirprwyon gwblhau ffurflen adrodd ar ddiwedd pob blwyddyn o'u dirprwyaeth. Weithiau bydd y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn i chi adrodd yn amlach.

Mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn defnyddio'r adroddiad i wneud yn siŵr eich bod yn gweithredu er lles pennaf y person. Dylai eich adroddiad gynnwys:

- penderfyniadau llesiant personol arwyddocaol rydych wedi'u gwneud ar gyfer y person ar hyd y flwyddyn – er enghraifft, trefnu pigiad ffliw neu waith deintyddol sylweddol
- sut y gwnaethoch gynnwys y person (os yn bosibl) yn y penderfyniadau
- gyda phwy arall y gwnaethoch ymgynghori ynglŷn â gwneud penderfyniadau

Os na fyddwch yn anfon eich adroddiad pan fydd y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn amdano, neu os oes gan y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus bryderon eraill amdano, byddwn yn adolygu eich dirprwyaeth.

Yn y pen draw, gallai hyn arwain at sefyllfa lle byddwn yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod i'ch atal rhag bod yn ddirprwy a phenodi dirprwy arall yn eich lle.

9 Cyflwyno eich adroddiad dirprwy

Rydych yn llenwi eich adroddiad dirprwy ar-lein. Mae'r gwasanaeth ar-lein yn eich galluogi i gofnodi penderfyniadau a thrafodion wrth i chi eu gwneud, sy'n golygu bod llai i'w wneud ar ddiwedd y flwyddyn. Canfyddwch fwy yn www.gov.uk/deputyreport

Gallwch gofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein cyn gynted ag y byddwch wedi cael eich rhif dirprwy gan y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Dechreuwch arni yn www.gov.uk/deputyreport

Os ydych yn cael anhawster i adrodd ar-lein, gallwch gysylltu â thîm dirprwyon y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus ar

0300 0300 456 0300

Relay UK (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn): 18001

0300 123 1300

Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639 Oriau

gweithredol y llinell ffôn: dydd Llun i ddydd Gwener,

9am i 5pm (dydd Mercher - 10am i 5pm)

Mae gan God Ymarfer Deddf Galluedd (MCA) 2005 lawer mwy o fanylion ac enghreifftiau o sut y gall dirprwyon weithredu.

Gallwch archebu copi neu ei lawrlwytho yn www.gov.uk/opg/mca-code

Eich rôl fel dirprwy

Beth mae galluedd meddyliol yn ei olygu?

Mae 'galluedd meddyliol' yn golygu'r gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud. Mae gan berson â galluedd meddyliol ddealltwriaeth gyffredinol o leiaf o:

- y penderfyniad y mae angen iddynt ei wneud
- pam fod angen iddynt ei wneud
- unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad
- canlyniadau tebygol y penderfyniad

Dylent allu dweud wrth bobl eraill am eu penderfyniad drwy leferydd, ystumiau neu ffyrdd eraill fel offer sy'n cael ei actifadu gan lais.

Weithiau gall pobl wneud mathau penodol o benderfyniadau ond nid oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud mathau eraill o benderfyniadau. Er enghraifft, efallai y gall rhywun benderfynu beth yr hoffent ei fwyta amser swper ond ni allant ddeall a oes angen triniaeth feddygol benodol arnynt.

Galluedd meddyliol: pump egwyddor

Mae Deddf Galluedd 2005 - sy'n llywodraethu'r hyn y gall dirprwyon ei wneud - yn nodi pum egwyddor ynglŷn â galluedd meddyliol. Mae'r egwyddorion yn effeithio arnoch chi fel dirprwy yn y ffyrdd canlynol:

1. Dylai'r person wneud penderfyniadau drostynt eu hunain oni allwch ddangos nad ydynt yn gallu eu gwneud.
2. Dylech roi'r holl help sydd ei angen ar y person i wneud penderfyniad cyn penderfynu na allant wneud y penderfyniad hwnnw.
3. Os yw'r person yn gwneud penderfyniad sy'n ymddangos yn annoeth neu'n rhyfedd, nid yw hynny'n golygu nad oes ganddynt alluedd i'w wneud. (Mae llawer o bobl yn gwneud penderfyniadau annoeth o bryd i'w gilydd.)

4. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad a wnewch ar gyfer y person fod er eu lles pennaf – pwynt pwysig iawn sy'n cael ei esbonio mewn mwy o fanylder isod.
5. Dylai unrhyw beth a wnewch ar ran person heb alluedd gyfyngu cyn lleied â phosibl ar eu hawliau sylfaenol.

Sut alla i helpu'r person i wneud penderfyniad eu hunain?

Mae'n bosibl bod gan bobl alluedd meddyliol rhywfaint o'r amser ond nid drwy'r amser. Os yw'r person yn fwyaf bywiog gyda'r nos fel arfer, er enghraifft, efallai mai dyna fyddai'r amser gorau i'w cynnwys wrth wneud penderfyniad.

Efallai y bydd y person yn fwy ymatebol hefyd os byddwch yn dewis y lleoliad cywir i ofyn am benderfyniadau – gartref o bosibl, yn hytrach nac mewn amgylchedd anghyfarwydd.

Gallech ddefnyddio ffyrdd eraill i gyfathrebu. Ceisiwch ddefnyddio lluniau neu iaith arwyddion i esbonio penderfyniad, er enghraifft.

Weithiau efallai y bydd ond angen ychydig mwy o amser i chi esbonio penderfyniad.

Enghraifft: Helpu rhywun i wneud penderfyniad

Cafodd Michael anaf difrifol ar ei ymennydd ar ôl damwain yn y gwaith ac mae'n ddryslyd ac yn rhwystredig yn awr ynglŷn â gwneud llawer o benderfyniadau. Mae'n byw gyda'i chwaer Sally, sydd wedi'i phenodi gan y Llys Gwarchod fel ei ddirprwy llesiant personol.

Cyn iddo gael ei ddamwain, roedd gan Michael ddiddordeb mewn ffasiwn ac mae ganddo gasgliad mawr o ddillad. Mae Sally yn credu y byddai'n dda i Michael helpu i benderfynu beth ddylai ei wisgo bob dydd – mae'n credu y gallai hyn wneud iddo deimlo'n well.

Fodd bynnag, pan mae'n ei holi ynglŷn â hyn yn y bore wrth iddo wisgo, mae'r dewisiadau yn ddryslyd iddo ac mae'n cynhyrfu.

Mae Sally yn cofio bod Michael yn fwy effro a galluog yn ddiweddarach yn y dydd. Mae'n ceisio gofyn iddo gyda'r nos pa ddillad yr hoffai eu gwisgo drannoeth. Y tro hwn gall Michael fynegi ei farn yn llawer cliriach am yr hyn yr hoffai ei wisgo.

Sut wyf yn gweithio er lles pennaf y person?

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i chi weithredu er lles pennaf person bob amser. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i chi wneud penderfyniadau er budd y person ac nid eich lles chi neu unrhyw un arall o reidrwydd.

Wrth sefydlu beth yw lles pennaf y person, dylech gadw mewn cof:

- eu dymuniadau yn y gorffennol ac yn awr
- eu credoau a'u gwerthoedd
- safbwyntiau aelodau'r teulu a gofalwyr
- a allai eu galluedd meddyliol ddychwelyd ac a allech ohirio'r penderfyniad tan hynny

Penderfynwyr eraill

Nid oes rhaid i chi benderfynu popeth ar gyfer y person – gallwch ond gwneud penderfyniadau yn y meysydd y mae'r gorchymyn llys yn dweud y gallwch eu gwneud.

Mae'r gyfraith yn rhoi pŵer i wneud penderfyniadau i bobl eraill ar ran y person hefyd. Er enghraifft, efallai y bydd angen i feddyg benderfynu a yw triniaeth er lles pennaf y person neu gallai perthynas wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Ar gyfer penderfyniadau nad ydych chi'n gyfrifol am eu gwneud, gallai'r penderfynwr ymgynghori â chi. Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad meddyg, er enghraifft, gallwch ofyn i'r Llys Gwarchod ei ystyried.

Dylech osgoi dod i gasgliadau am les pennaf y person ar sail eu hoedran, cefndir ethnig, ymddangosiad cyffredinol, rhyw neu rywioldeb yn unig.

Rhaid i chi hefyd beidio â gwahaniaethu yn erbyn y person – eu trin yn waeth – am unrhyw un o'r rhesymau hyn. Ystyriwch les pennaf y person fel unigolyn bob amser.

Am wybodaeth bellach am les pennaf, gweler pennod 5 Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol (sydd ar gael yn www.gov.uk/opg/mca-code).

Penderfyniadau na all unrhyw un eu gwneud ar gyfer y person

Mae yna rai penderfyniadau personol iawn na all unrhyw un eu gwneud ar gyfer y person. Ni allwch:

- atal triniaeth sy'n cadw'r person yn fyw ('triniaeth cynnal bywyd')
- penderfynu pwy mae'r person yn ei briodi neu'n ei ysgaru
- atal y person rhag cael cysylltiad gyda phobl

Beth ddylwn ei wneud os...? Rhai penderfyniadau cyffredin fel dirprwy llesiant personol

Mae mwy nac un dirprwy

Weithiau bydd Y Llys Gwarchod yn penodi dau ddirprwy neu fwy ar gyfer yr un person.

Bydd y llys yn dweud wrthyhych sut i wneud penderfyniadau os nad chi yw'r unig ddirprwy. Bydd naill ai:

- gyda'ch gilydd (a elwir yn 'ar y cyd' fel arfer), sy'n golygu bod yn rhaid i bob dirprwy gytuno ar benderfyniadau
- ar wahân neu gyda'ch gilydd (a elwir fel arfer yn 'ar y cyd ac yn unigol' fel arfer), sy'n golygu y gall dirprwyon wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain neu gyda dirprwyon eraill

Mae angen i mi benderfynu lle mae'r person yn byw

Gallai eich gorchymyn llys ddatgan y gallwch chi, fel dirprwy, gytuno lle mae'r person yn byw. Dylech benderfynu hyn drwy weithio gyda'r teulu, ffrindiau a darparwyr gofal eraill.

Dylech:

- ymchwilio i lety sy'n addas ar gyfer y person, os ydynt yn talu am eu gofal eu hunain
- os nad yw'r person yn talu am eu gofal, gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i wneud yn siŵr bod eu llety yn gweddu orau i'w hanghenion; os bydd problem, dylech ei drafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r staff gofal
- llofnodi'r dogfennau angenrheidiol ar ran y person

Ond ni ddylech:

- symud y person i le arall heb ymgynghori ag eraill, er enghraifft aelodau'r teulu, gweithwyr iechyd proffesiynol, staff gofal a'r gwasanaethau cymdeithasol

Os bydd anghytundeb, gallai cyfarfod lles pennaf helpu i'w ddatrys. Os na fydd hynny'n helpu, efallai y bydd angen i chi ofyn i'r Llys Gwarchod benderfynu.

Enghraifft: Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd ynglŷn â threfniadau byw

Mae Stephanie a Simon wedi'u penodi yn ddirprwyon llesiant personol ar y cyd ar gyfer eu brawd, Anthony, sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Arferai Anthony fyw gyda'i rieni, ond maen nhw wedi marw.

Un o dasgau cyntaf Stephanie a Simon yw penderfynu lle dylai Anthony fyw. Oherwydd eu bod wedi'u penodi yn ddirprwyon ar y cyd, mae'n rhaid iddyn nhw gytuno ar bob penderfyniad llesiant personol maen nhw'n eu gwneud ar gyfer eu brawd.

Mae Simon yn credu bod anawsterau Anthony i ofalu am ei hun yn ddigon difrifol y dylai fod yn symud i gartref gofal. Mae Stephanie yn dweud y gallai byw gyda dieithriaid greu gofid i Anthony ac mae'n credu y byddai'n well iddo fyw gyda Simon neu hi – pe baent yn gallu ymdopi â hyn.

Ar ôl gwneud pob ymdrech i gael barn Anthony, mae'r teulu'n cwrdd i drafod y materion dan sylw. Mae'r dirprwyon yn gwrandao ar aelodau eraill y teulu cyn penderfynu y byddai er lles pennaf Anthony i'w symud i gartref gofal lle gall dderbyn y gofal sydd ei angen arno.

Mae'r teulu'n cytuno i ymweld ag Anthony yn aml yn ei gartref newydd.

Mae angen i mi weithio'n rheolaidd gyda darparwyr gofal

Mae darparwyr gofal sy'n debygol o gael cyswllt rheolaidd gyda chi a'r person yn cynnwys:

- gweithwyr cymorth
- gweithwyr preswyl
- cynorthwyywyr cartref
- cynorthwyywyr personol
- staff nyrsio

Mae gan ddarparwyr gofal cofrestredig ddyletswydd i ddarparu gofal i'r person, gan ddilyn cynllun gofal.

Mae'n bosibl y bydd y person mewn gofal preswyl eisoes pan fydd y gorchymyn llys yn dechrau. Os felly, bydd gweithwyr proffesiynol y cartref gofal eisoes yn gyfrifol am ofal y person o ddydd i ddydd.

Dylech:

- dweud wrth staff am ddymuniadau'r person yn y gorffennol ac yn awr ynglŷn â'u gofal i'w helpu i deilwra eu cefnogaeth
- os yn bosibl, cynnwys y person mewn trafodaethau ynglŷn â'u gofal eu hunain
- codi unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych ynglŷn â'r cynllun gofal yn brydlon; peidiwch â gadael iddyn nhw ddwysáu

Ond ni ddylech:

- dweud wrth staff i ddarparu gofal nad yw wedi'i gymeradwyo. Gellir newid cynlluniau gofal – ond mae'n rhaid cytuno ar hyn gyda'r holl bobl berthnasol

Enghraifft: Gweithio gyda darparwyr gofal

Mae Emily yn fenyw oedrannus sydd â'r clefyd Alzheimer's sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Ei brawd, Bert, yw ei dirprwy llesiant personol.

Mae Emily yn dioddef mân anaf wrth grwydro o amgylch y cartref yn oriau mân y bore. Mae Bert yn poeni y bydd hyn yn digwydd eto. Mae'n gofyn i nyrs a fyddai'n bosibl goruchwyllo Emily yn fwy manwl.

Mae'r nyrs yn dweud y gallent osod synwryddion symudiad a larymau drws yn ystafell Emily, i hysbysu'r staff os bydd yn crwydro yn y nos. Drwy wneud hyn, ni fyddai'n cael ei chloi i mewn ond gallai'r staff weithredu pe byddai'n gadael ei hystafell.

Mae Emily, Bert, rheolwr y cartref gofal a meddyg Emily yn trafod pa ddull o ymateb a fyddai'n cyfyngu leiaf ar ryddid a hawliau Emily. Maen nhw'n pwysu a mesur y manteision a'r anfanteision ac yn cytuno mai synwryddion a larymau sydd er lles pennaf Emily.

Creu llyfr stori

Un ffordd i helpu darparwyr gofal i ofalu am y person mewn ffordd fwy personol yw drwy baratoi 'llyfr stori bywyd' gyda ffotograffau a gwybodaeth am gefndir y person. Gall gynnwys:

- swyddi maen nhw wedi'u gwneud a chyflawniadau
- eu hoffterau a'u cas bethau
- eu hoff fwydydd a cherddoriaeth
- pobl bwysig yn eu bywyd

Mae angen i mi wneud penderfyniadau ynglŷn â deiet a dillad y person
Dylai penderfyniadau ynglŷn â gofal o ddydd i ddydd gefnogi'r person ac
ni ddylid eu defnyddio fel ffordd o reoli eu hymddygiad, hyd yn oed os
yw'n anodd. Cofiwch fod Y Llys Gwarchod wedi rhoi'r pwerau hyn i chi er
mwyn parchu dewisiadau'r person.

Dylech:

- trafod eu dewisiadau bwyd a dillad gyda'r person (os yw'n bosibl)
- dweud wrth y staff neu ddarparwyr gofal am ddewisiadau'r person ac
unrhyw ofynion crefyddol ynglŷn â'u deiet a'u dillad
- prynu brandiau o ddillad yr oedd y person yn eu hoffi a thrafod hyn
mewn cyfarfodydd cynllunio neu adolygu gofal; os oes problem
gyda'r dillad y mae staff y cartref gofal yn gwisgo'r person ynddynt,
trafodwch hyn gyda'r staff a'r rheolwr

Ond ni ddylech:

- mynd â'r person i'w hystafell a newid eu dillad yn ystod pob ymweliad
- atal bwyd neu ddiod a roddir i'r person gan ddarparwyr gofal heb
ymgyngori â nhw

Enghraifft: Gwneud penderfyniadau ynglŷn â deiet

Mae gan Jakub ddementia ac mae'n byw mewn cartref nyrsio. Cyn colli galluedd, ni fyddai byth yn bwyta pwdin ar ôl pryd bwyd.

Fodd bynnag, mae wedi sylwi bod pobl eraill yn y cartref gofal yn mwynhau pwdinau ac mae'n dweud wrth y staff ei fod yn dymuno dechrau bwyta pwdinau.

Karol, mab Jakub, yw ei ddirprwy llesiant personol. Mae Karol yn poeni y bydd ei dad yn magu pwysau, oherwydd mae ganddo gyflwr ar ei galon.

Mae Karol yn gofyn i reolwr y staff nyrsio roi'r gorau i roi pwdinau i'w dad.

Mae'r rheolwr yn awgrymu cyfarfod gyda Jakub a meddyg teulu Jakub. Mae'r pedwar ohonynt yn eistedd i lawr ac yn cytuno y gellir cynnig ffrwyth a phwdin bach i Jakub ar ddiwedd ei swper. Mae hyn yn golygu y gall Jakub fwynhau ei fwyd heb i'r cyflwr ar ei galon waethygu.

Mae angen i mi wneud penderfyniadau ynglŷn â gweithgareddau hamdden a chymdeithasol y person

Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, dylech ystyried dewisiadau'r person yn y gorffennol a sut maen nhw'n ymateb yn awr yn ystod gweithgareddau.

Dylech:

- os yn bosibl, cynnwys y person mewn penderfyniadau ynglŷn â gweithgareddau hamdden a thripiâu y byddent yn eu hoffi
- trefnu gweithgareddau yr arferai'r person eu gwneud, er enghraifft trip i'r theatr, sinema, y sw, bingo, parc neu gyngerdd
- rhoi gwybod i staff y cartref gofal os oes pethau nad oedd y person yn mwynhau eu gwneud

Ond ni ddylech:

- peidio cynnwys y person mewn trafodaethau ynglŷn â'u gweithgareddau hamdden a chymdeithasol, hyd yn oed os yw'n anodd eu cynnwys
- eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu gymdeithasol y byddent yn eu mwynhau

Enghraifft: Penderfynu ar weithgareddau cymdeithasol

Mae Isabella, menyw ifanc ag anawsterau dysgu difrifol, yn byw gartref gyda'i rhieni – ac sy'n ddirprwyon iddi – ac mae'n mynychu canolfan gweithgareddau sawl diwrnod yr wythnos.

Byddai staff y ganolfan yn hoffi mynd â rhai o'r bobl sy'n mynychu'r ganolfan ar drip. Maent yn siarad gyda rhieni Isabella.

Mae ei rhieni yn credu y byddai'n llesol iddi fynd ar y trip. Fodd bynnag, maen nhw'n poeni oherwydd gall Isabella fod yn ofnus os bydd wedi'i hamgylchynu gan bobl anghyfarwydd.

Mae'r staff yn ceisio cynnwys Isabella yn y penderfyniad ond nid yw'n ymateb. Yna mae rhieni Isabella a'r staff yn cyfarfod ac yn cytuno bod trip er ei lles pennaf, ar yr amod bod gweithiwr cymorth yn mynd gyda hi i'w helpu os bydd yn mynd yn rhy bryderus.

Gofynnir i mi gytuno ar driniaeth feddygol ar gyfer y person

Mae'n rhaid i'ch penderfyniadau ynglŷn â thriniaeth y person ddilyn y gorchymyn llys, bod er lles pennaf y person a'u cyfyngu cyn lleied â phosibl.

Dylech:

- llofnodi ffurflenni 'cydsyniad ar gyfer triniaeth' ar ran y person – gan ystyried eu dymuniadau yn y gorffennol
- rhannu unrhyw ddewisiadau y mae'r person wedi'u dweud neu wedi'u hysgrifennu gyda staff gofal
- gwneud yn siŵr bod gan y staff gopiâu o unrhyw benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth (a elwir weithiau hefyd yn 'gyfarwydddeb uwch' neu'n 'ewylllys byw') neu unrhyw ddatganiad ysgrifenedig o ddymuniadau a dewisiadau, er enghraifft datganiad ymlaen llaw
- dilyn dymuniadau'r person, hyd yn oed os ydych yn anghytuno â nhw

Ond ni ddylech:

- gorfodi eich dewisiadau meddygol eich hun – rhaid i chi wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddewisiadau'r person yn y gorffennol a'u lles pennaf
- trin y person eich hun neu newid meddyginiaeth a ragnodwyd neu driniaeth - rhaid i chi gytuno ar newidiadau gyda staff gofal iechyd
- os yw'r person mewn cartref gofal, newid padiau anymataliaeth, rhoi meddyginiaeth neu newid rhwymynnu heb ofyn i'r rheolwr

Cofiwch: er mwyn gweithredu er lles pennaf y person, mae'n hanfodol cydweithio gyda phawb sy'n gysylltiedig â'u gofal

Enghraifft: Penderfynu ar driniaeth

Mae gan Peter anableddau dysgu difrifol ac ni all gyfathrebu'n dda. Ei rieni yw ei ddirprwyon llesiant personol.

Mae Peter yn brifo ei goes pan mae allan yn yr awyr agored; mae baw yn y briw. Mae meddyg eisiau rhoi pigiad tetanws iddo ond mae Peter yn ymddangos yn ofnus o'r nodwydd ac mae'n brwydro yn ei erbyn.

Mae'r meddyg yn trafod gallu Peter i wneud a deall penderfyniadau gyda'i rieni. Maen nhw'n credu nad yw'n deall y risg i'w iechyd, er eu bod wedi ceisio esbonio i Peter. Ni all Peter wneud y penderfyniad.

Mae'r meddyg yn penderfynu ei bod er lles pennaf Peter i roi'r brechiad iddo. Mae'n gofyn i'r nyrs gysuro Peter ac, os bydd angen, ei atal drwy afael yn ei ddwylo, pan fydd yn rhoi'r pigiad.

Mae angen i mi rannu manylion personol am y person

Mae gan ddirprwyon 'ddyletswydd cyfrinachedd' i beidio datgelu manylion am faterion y person oni bai bod:

- y person wedi cytuno i hyn pan oedd ganddyn nhw alluedd
- mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn am y wybodaeth
- mae rheswm da arall (er enghraifft, gallai'r person neu rywun arall ddod i niwed pe na fydddech yn gwneud hyn)

Dylech barhau i ymgynghori ag eraill hefyd – ffrindiau a theulu'r person, arbenigwyr meddygol neu arbenigwyr eraill – wrth gyflawni eich dyletswyddau dirprwy os bydd er lles pennaf y person i wneud hynny.

Rwyf eisiau trosglwyddo fy nyletswyddau dirprwy i rywun arall

Er y gallwch ofyn am gyngor gan eraill, er enghraifft meddygon a staff gofal ynglŷn ag iechyd a gofal y person, mae'r gyfraith yn dweud na all dirprwyon ddirprwyo (trosglwyddo) y cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau i rywun arall fel arfer.

Bydd ond yn bosibl i rywun arall gymryd drosodd eich dyletswyddau dirprwy os bydd gorchymyn llys yn dweud y gallent mewn rhai meysydd.

Fel arall, mae'n rhaid i chi fel y dirprwy wneud y penderfyniad a chi sy'n gyfrifol amdanynt.

Rwyf eisiau hawlio treuliau fel dirprwy neu gael fy nhalu

Gall dirprwyon llesiant personol hawlio treuliau rhesymol am bethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni eich rôl fel dirprwy, er enghraifft galwadau ffôn, costau postio ac unrhyw gostau teithio angenrheidiol.

Ni allwch hawlio costau teithio ar gyfer ymweliadau cymdeithasol â'r person yn unig, oherwydd mae'r rhain y tu hwnt i'ch dyletswyddau fel dirprwy a'ch rôl fel ffrind neu aelod o'r teulu.

Hefyd, ni allwch hawlio am yr amser y byddwch yn ei dreulio yn cyflawni eich dyletswyddau, oni bai eich bod yn ddirprwy proffesiynol. Nid yw dirprwyon 'lleyg' (nid ydynt yn broffesiynol) yn cael eu talu.

Mae angen i chi hawlio treuliau gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am arian y person. Efallai eu bod yn ddirprwy ar gyfer penderfyniadau ariannol, wedi'u penodi ar wahân gan Y Llys Gwarchod, neu rywun arall.

Dylech gadw derbynebaw a chyfriflenni banc fel cofnod o'ch gwariant.

Ni all dirprwyon ddefnyddio eu swydd i greu budd i'w hunain. Gallai Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) ofyn i chi esbonio eich treuliau yn eich adroddiad dirprwy.

Os ystyrir bod eich treuliau yn afresymol, efallai y bydd angen i chi eu had-dalu. Mewn achosion eithriadol, efallai y cewch eich rhyddhau fel dirprwy (gall Y Llys Gwarchod dynnu eich rôl fel dirprwy oddi arnoch).

Mae anghydfod ynglŷn â fy rôl fel dirprwy

Weithiau mae anghydfodau ac anghytundebau yn digwydd ynglŷn â phenderfyniadau llesiant personol dirprwy. Gall anghydfodau ddigwydd rhwng y dirprwy a'r person neu gyda phobl eraill sydd â chysylltiad â'r person, er enghraifft aelodau'r teulu.

Os ydych yn agored ac yn cynnwys eraill mewn penderfyniadau, mae problemau yn llai tebygol o ddigwydd.

Dylai dirprwyon neu eraill sy'n gysylltiedig ag anghydfod geisio dod i gytundeb rhyngddynt eu hunain i ddechrau. Os na fydd hynny'n gweithio, cysylltwch â'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus am gyngor.

Mae angen i chi gofnodi unrhyw anghydfodau, a manylion sut y cawsant eu datrys, yn eich adroddiad dirprwy.

Sut wyf yn cael fy ngoruchwylio fel dirprwy?

Mae gan y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) ddyletswydd gyfreithiol i oruchwylio dirprwyon a benodwyd gan Y Llys Gwarchod.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn teilwra ei goruchwyliaeth o'ch dirprwyaeth er mwyn cyflawni eich anghenion chi a'r person.

Mae goruchwyliaeth yn cynnwys adolygu adroddiadau a gyflwynwyd gan ddirprwyon a gwneud yn siŵr bod dirprwyon yn gweithredu yn unol â'u gorchymyn dirprwy a'r Safonau Dirprwy.

Gallwch ffonio'r Tîm Llesiant Personol ar 0300 456 0300 i drafod unrhyw rai o'r materion a godwyd yn y llyfryn hwn

Ymwelwyr Y Llys Gwarchod

Weithiau mae'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn trefnu i ymwelwyr Y Llys Gwarchod gwrdd â'r person a'u dirprwy(on) i weld sut mae'r ddirprwyaeth yn mynd ac a oes angen mwy o gymorth arnoch. Ar achlysuron prin, gellir gofyn i ymwelydd ymchwilio i achos a amheuir o gam-drin y person.

Yn ogystal â siarad gyda chi a'r person, gall ymwelwyr gysylltu ag eraill sy'n ymwneud â'r ddirprwyaeth, er enghraifft aelodau'r teulu neu staff meddygol.

Fel dirprwy, mae'n rhaid i chi gytuno i gwrdd ag ymwelydd y llys a rhoi unrhyw wybodaeth y byddant yn gofyn amdani iddynt.

Ymchwiliadau

Os bydd y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn credu nad ydych yn gweithredu er lles pennaf y person, byddwn yn ymchwilio. Gall ymchwiliadau gymryd amser, yn dibynnu ar ba mor gymhleth ydyn nhw. Tra bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal, bydd y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gweithio gyda phawb sy'n gysylltiedig i wneud yn siŵr bod lles pennaf y person yn cael ei sicrhau.

Fodd bynnag, os bydd y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn amau bod dirprwy yn cam-drin neu'n esgeuluso, efallai y byddwn yn hysbysu'r heddlu ynghylch y mater.

Canlyniadau ymchwiliad

Yn dilyn ymchwiliad, gall y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus oruchwyllo eich dirprwyaeth yn fwy manwl a chysylltu â chi yn fwy rheolaidd. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnig y lefel gywir o gymorth ac yn gweithio gyda chi er lles pennaf y person.

Os bydd yr ymchwiliad yn canfod nad ydych yn gweithredu er lles pennaf y person, eich bod wedi methu dilyn y Safonau Dirprwy, neu eich bod wedi camddefnyddio eich swydd fel dirprwy, gallai'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus wneud cais i'r Llys Gwarchod i'ch diswyddo (tynnu'r ddirprwyaeth oddi arnoch).

Codi pryder

Cysylltwch â'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r person rydych yn gyfrifol amdanynt:

Ar-lein: www.gov.uk/guidance/raise-a-concern

e-bost: opg.safeguardingunit@publicguardian.gov.uk

Ffoniwch 999 os bydd rhywun mewn perygl uniongyrchol neu eich heddlu lleol os ydych yn credu bod rhywun wedi cyflawni trosedd.

Office of the Public Guardian

Supervision

PO Box 16185

Birmingham B2 2WH

Ffôn: 0300 456 0300

Relay UK (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn):

18001 0300 123 1300

Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639 Oriau

gweithredol y llinell ffôn: dydd Llun i ddydd Gwener,

9am i 5pm (Dydd Mercher - 10am i 5pm)

Newid eich dirprwyaeth

Rhaid i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod os oes angen i chi:

- newid eich dirprwyaeth, er enghraifft i wneud penderfyniadau nad ydynt yn y gorchymyn gwreiddiol
- gwneud penderfyniad untro nad yw wedi'i gynnwys yn y gorchymyn
- adnewyddu eich dirprwyaeth (os oes gan y ddirprwyaeth ddyddiad dod i ben)

I wneud cais, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais (COP1) a datganiad tyst (COP24) gyda manylion sefyllfa ariannol bresennol y person a pham eich bod yn gwneud cais amdano. Yna mae angen i chi anfon y ffurflenni i'r Llys gyda siec o £421 ar gyfer y ffi gwneud cais, sy'n cael ei thalu o arian y person.

Gallwch wneud cais am help i dalu'r ffi os bydd y person yn cael budd-daliadau neu os ydynt ar incwm isel.

Ar gyfer ffurflenni a gwybodaeth bellach am newid eich dirprwyaeth, ewch I www.gov.uk/become-deputy/change-deputyship-oneoff-decision

Pryd mae dirprwyaeth yn dod i ben?

Bydd eich dirprwyaeth yn dod i ben pan fydd un o'r pethau canlynol yn digwydd:

- Mae'r person yn adennill galluedd meddyliol. Os bydd hyn yn digwydd, llenwch ffurflen COP9 a'i hanfon i'r Llys Gwarchod gydag unrhyw dystiolaeth ategol, er enghraifft llythyr meddyg
- Rydych chi'n penderfynu camu i lawr. I wneud hyn, gwnewch gais i'r llys gyda ffurflen COP1. Bydd y llys yn cymryd camau i benodi dirprwy newydd
- Mae'r person yn marw. Rhowch wybod i'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus, a byddwn yn esbonio beth i'w wneud nesaf. Bydd angen i chi ddarparu dystiolaeth, er enghraifft tystysgrif geni
- Mae'r dirprwy yn marw (os yw'n ddirprwyaeth unigol neu ar y cyd). Dylai eich cyfreithiwr neu ysgutor ddweud wrth y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus a bydd angen penodi dirprwy newydd

Dysgwch fwy am ffurflenni a gwybodaeth ategol arall i ddod â'ch dirprwyaeth i ben.

Neu ffoniwch y Tîm Iechyd a Llesiant ar 0300 456 0300
neu'r Llys Gwarchod ar 0300 456 4600.

Rhestr wirio dirprwy

Efallai y byddwch yn dymuno datgysylltu'r rhestr wirio hon a'i chadw yn rhywle amlwg i'ch atgoffa o'ch tasgau fel dirprwy.

- ☐ Rwyf wedi dod i adnabod y person, gan gynnwys siarad gyda'u ffrindiau a'u teulu os bydd angen
- ☐ Rwy'n deall telerau fy ngorchymyn llys ac nid oes unrhyw gamgymeriadau ynddo. (Os oes camgymeriadau ynddo, rwyf wedi hysbysu'r Llys Gwarchod)
- ☐ Rwyf wedi darllen Safonau Dirprwy a chanllawiau ar gyfer dirprwyon lleig y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus
- ☐ Rwyf wedi hysbysu'r unigolion a'r sefydliadau cywir – er enghraifft meddygon, gweithwyr cymdeithasol a staff gofal – fy mod yn ddirprwy
- ☐ Rwy'n cadw cofnod o fy mhenderfyniadau llesiant personol fel dirprwy
- ☐ Rwy'n deall sut i weithio gyda darparwyr gofal proffesiynol
- ☐ Rwy'n deall beth mae galluedd meddyliol yn ei olygu a sut i wneud penderfyniadau er lles pennaf y person
- ☐ Rwy'n gwybod am y ffioedd – ar gyfer asesu a goruchwyllo dirprwyon – y mae'n rhaid i mi eu talu i'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus
- ☐ Rwy'n gwybod bod angen i mi gyflwyno adroddiad i'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus pan ofynnir i mi wneud, yn dangos y penderfyniadau llesiant personol rwyf wedi'u gwneud fel dirprwy

Deall y Jargon

Bwrdd Diogelu Oedolion

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gael bwrdd diogelu oedolion. Mae byrddau diogelu yn adolygu achosion pan fydd amheuaeth bod rhywun yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Cam-drin

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn tarfu ar hawliau dynol neu sifil rhywun arall. Gallai camdriniaeth gynnwys un weithred neu weithredoedd a ailadroddir. Gall hefyd fod yn esgeulustod neu'n fethiant i weithredu.

Cartref gofal

Cartref sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal, neu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sy'n darparu llety gyda gofal personol, er enghraifft help i ymolchi a gwisgo. Mae cartref gofal gyda darpariaeth nyrsio – a elwir hefyd yn 'gartref nyrsio' – yn darparu gofal nyrsio a phersonol.

Cartref nyrsio

Cartref gofal sy'n darparu gofal nyrsio (gydag o leiaf un nyrs gofrestredig ar ddyletswydd yn gyffredinol). Gelwir hyn hefyd yn 'gartref gofal gyda nyrsio'.

Cleient

Term a ddefnyddir weithiau ar gyfer y person heb alluedd meddyliol y mae'r Llys Gwarchod wedi eich penodi chi i wneud penderfyniadau llesiant personol ar eu cyfer.

Cod Ymarfer

Canllaw i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (gweler isod), sydd ar gael yn www.gov.uk/opg/mca-code

Mae'r cod yn cynnwys llawer o wybodaeth werthfawr i ddirprwyon.

Cynllun diogelu

Mae asiantaethau, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yn llunio cynllun i ddiogelu person heb alluedd meddyliol sy'n credu eu bod mewn perygl o niwed.

Cynllun gofal

Cytundeb ysgrifenedig sy'n nodi sut i ddarparu gofal i'r person rydych yn gwneud penderfyniadau ar eu cyfer.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae'r ddeddf wedi'i dylunio i ddiogelu pobl na allant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Gallai hyn fod o ganlyniad i gyflwr iechyd meddwl, anabledd dysgu difrifol, anaf ar yr ymennydd neu strôc. Diben y ddeddf yw galluogi oedolion i wneud cymaint o benderfyniadau ag y gallent drostynt eu hunain ac i ddirprwy neu eraill wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Dementia

Term a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd ac sy'n lleihau'r gallu i wneud tasgau o ddydd i ddydd. Mae 'dementia' yn disgrifio'r symptomau, nid y cyflwr ei hun. Mae symptomau yn cynnwys:

- colli cof
- anhawster i ddeall pobl a chanfod y geiriau cywir
- anhawster i gwblhau tasgau syml a datrys mân broblemau
- newidiadau i hwyliau ac anhwylderau emosiynol

Dirprwy

Rhywun wedi'i benodi gan Y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran person arall heb alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau hynny eu hunain. Gellir penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ynglŷn â llesiant personol, neu eiddo neu gyllid, neu'r ddau.

Gall dirprwyon fod yn ddirprwyon lleyg, er enghraifft aelodau teulu neu ffrindiau'r person heb alluedd. Neu efallai eu bod yn weithiwr proffesiynol, fel cyflogegion awdurdod lleol.

Esemptiadau a gostyngiadau

Os oes gan y person incwm isel, gall y dirprwy wneud cais ar eu rhan am esemptiad (peidio talu unrhyw ffi) neu ostyngiad (talw ffi is) o ffioedd asesu a goruchwyllo'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Esgeulustod bwriadol

Methiant i gyflawni gweithred gofal gan rywun sydd â chyfrifoldeb am berson heb alluedd meddyliol i ofalu amdanynt eu hunain. Mae hyn yn drosedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Galluedd meddyliol

Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Nodir y diffiniad cyfreithiol o berson heb alluedd meddyliol yn adran 2 Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Am wybodaeth bellach am alluedd meddyliol, gweler tudalen 15 y canllaw hwn.

Gofal lleiaf cyfyngol

Os nad oes gan berson alluedd meddyliol, rhaid i benderfyniadau a wneir ar eu rhan barchu rhyddid y person i weithredu ac yr opsiwn lleiaf cyfyngol. Mae hyn yn golygu cadw'r person yn ddiogel wrth gyfyngu eu hawliau a'u rhyddid cyn lleied â phosibl.

Gweithiwr gofal

Gweithwyr cyflogedig sy'n cynorthwyo pobl gyda thasgau bob dydd a allai fod yn oedrannus neu'n sâl, sydd ag anableddau corfforol neu ddysgu neu broblemau emosiynol neu gymdeithasol.

Lles Pennaf

Dylai dirprwyon bob amser ystyried pa weithredoedd sydd er lles pennaf y person wrth wneud penderfyniad. Dylech hefyd ystyried dymuniadau'r person yn awr ac yn y gorffennol ac ystyried ymgynghori ag eraill. Am wybodaeth bellach am les pennaf, gweler a17 y canllaw hwn.

P

Term a ddefnyddir weithiau ar gyfer y person heb alluedd meddyliol y mae'r Llys Gwarchod wedi eich penodi chi i wneud penderfyniadau am eiddo a materion ar eu rhan.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n helpu pobl yng Nghymru a Lloegr i barhau i reoli eu llesiant a'u cyllid personol a gwneud penderfyniadau pwysig i eraill na allant wneud penderfyniadau eu hunain.

Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid

Trefniadau diogelu i atal pobl heb alluedd meddyliol rhag cael eu cyfyngu'n ddiangen pan fyddant yn yr ysbyty, mewn cartref gofal neu drefniant byw â chymorth.

Ymwelydd Y Llys Gwarchod

Rhywun sydd wedi'u penodi i adrodd i'r Llys Gwarchod neu'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus ar sut mae dirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau.